# Proffil Sgiliau Digidol
## Cyflogwyr

1872




clicky.™

# Asiantaeth Marchnata Digidol Clicky Media

### Cwmni
Clicky Media

### Maint y Cwmni
50

### Sefydlwyd
2007

### Lle mae'r cwmni wedi'i leoli
Ar draws y Deyrnas Unedig

### Enghreifftiau o rolau nodweddiadol i raddedigion
Rolau cynorthwyol mewn maes gwasanaeth penodol o farchnata digidol:
Optimeiddio peiriant chwilio
Hysbysebion Taledig
Negeseuon taledig ar y cyfryngau cymdeithasol
Cysylltiadau Cyhoeddus Digidol

## Sgiliau Digidol Hanfodol sy'n Werthfawr yn ein barn ni

**Dysgu Digidol** — Ymgysylltu'n rhagweithiol â dysgu sut i ddefnyddio meddalwedd newydd. Er enghraifft, sefyll arholiadau Google ar gyfer arholiadau a sgiliau digidol lefel mynediad yn Google analytics neu feddalwedd chwilio taledig

**Hunaniaeth Ddigidol** — Hyfedredd gyda LinkedIn a'i ddefnyddio i ymgysylltu â'r diwydiant ehangach a chyfathrebu ag ef.

**Creadigrwydd Digidol** — Profiad o sefydlu gwefan

### Sut beth fyddai diwrnod yn gweithio yn un o’ch rolau cynorthwyol?

"Byddai'n dibynnu ar yr adran, ond strwythur cyffredinol un o'n rolau cynorthwyol yw y byddech yn cael gwaith wedi’i glustnodi i chi gan y tîm ehangach ac yna cefnogi'r uwch dîm gyda'r gwaith ar gyfer cleientiaid. Felly, gallai fod yn unrhyw beth o dynnu ymchwil o wahanol lwyfannau, i helpu gyda chyflwyniad ar gyfer strategaeth cleientiaid."

### Beth yw'r nodweddion personol rydych chi'n chwilio amdanynt mewn gweithiwr newydd?

"Dycnwch, rhywun sydd eisiau dod i mewn i'r busnes a gyrru newid ac yna yn cyflawni'r amcanion hynny. Mae cael ymwybyddiaeth fasnachol yn wych ond mewn gwirionedd rydym yn chwilio am rywun sy'n gwybod beth maen nhw ei eisiau ac sy’n fodlon gweithio’n galed i'w gyflawni."

### Pa mor bwysig yw defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol wrth farchnata?

"Mae LinkedIn yn beth mor fawr yn ein sector felly mae gallu ei ddefnyddio yn ddefnyddiol iawn. Mae gennym dîm cyfryngau cymdeithasol cyflogedig felly er nad ydym yn gwneud unrhyw beth yn organig, gall cael gwybodaeth am rai llwyfannau megis Meta a TikTok a sut mae pobl yn defnyddio'r rhain fod yn ddefnyddiol iawn o safbwynt darparu i gleientiaid."

### A oes gwendidau cyffredin o ran sgiliau digidol mewn graddedigion?

"Gwybodus am Excel ac â’r wybodaeth ddiweddaraf am y llwyfannau penodol yn bennaf. Mae graddedigion yn tueddu naill ai i beidio â gallu defnyddio systemau newydd yn gyflym iawn neu maent yn wybodus iawn am y llwyfannau, ond maen nhw am wneud popeth yn rhy gyflym, ac maen nhw'n torri corneli yn y pen draw, felly mae'n ymwneud â dod o hyd i gydbwysedd rhwng y ddau mewn gwirionedd."

[Gwefan Clicky Media]